# Cyflwyniad i gyfrifiadura a thechnoleg gwybodaeth 2 TM112

### Patrwm cyflwyno

*Rhwng mis Ebrill a mis Medi*

*Rhwng mis Hydref a mis Mawrth*

### Disgrifiad o'r modiwl

TM112 yw'r ail fodiwl gorfodol ar lefel mynediad ar gyfer y rhan fwyaf o gymwysterau Cyfrifiadura a TG. Bydd gan y myfyrwyr hynny sydd ar y rhaglen Prentisiaeth Gradd Atebion Digidol a Thechnegol batrwm astudio gwahanol. Mae'r modiwl yn adeiladu ar y cysyniadau allweddol a gyflwynwyd yn TM111, gyda ffocws ychwanegol ar raglennu gyda Python. Bydd hefyd yn cwmpasu Technolegau Gwybodaeth (e.e. cwmwl, diwifr a symudol) a'u defnydd o amrywiaeth o safbwyntiau (cymdeithasol, moesegol, masnachol a chyfreithiol). Mae TM112 yn datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth berthnasol myfyrwyr ymhellach ac mae ffocws penodol ar ddatblygu sgiliau datrys problemau myfyrwyr. Bydd myfyrwyr yn astudio â llyfrau print ac yn cyflawni gweithgareddau ar-lein yn ogystal â gwaith rhaglennu ar y sgrin. Bydd tiwtoriaid yn helpu myfyrwyr drwy gymysgedd o diwtorialau wyneb yn wyneb ac ar-lein.

### Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â manyleb gyffredinol y person ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylai eich cais ddangos tystiolaeth eich bod yn bodloni'r gofynion a restrir isod. Bydd yn ofynnol i chi ddangos rhai o'r galluoedd hyn mewn cyfweliad, os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer.

Dylai eich cais ddarparu tystiolaeth eich bod:

- yn gallu addysgu rhaglennu
- yn gallu datblygu sgiliau datrys problemau eang myfyrwyr gan gynnwys meddwl algorithmig
- yn gyfarwydd ag iaith rhaglennu orchmynnol ac yn gallu dysgu Python
- yn ddefnyddiwr cyfrifiadur hyderus â chefndir yn y defnydd ohonynt at ddibenion cymdeithasol, gwaith neu addysg
- yn wybodus am dechnolegau cyfrifiadur a chyfathrebu cyfredol ac â diddordeb mewn datblygiadau sy'n gysylltiedig â Chyfrifiadura a TG

- yn gallu addysgu cysyniadau sylfaenol ac egwyddorion technegol storio data, cwmwl, rhwydweithiau symudol, caledwedd cyfrifiadur, diogelwch, a'u goblygiadau cyfreithiol, cymdeithasol a moesegol.
- yn gallu datblygu sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig, rhifedd, llythrennedd digidol a gwybodaeth myfyrwyr a'u defnydd o'r iaith Saesneg
- yn frwdfrydig ac â phrofiad o addysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb, h.y.:
  - hwyluso gweithgareddau anghydamserol ar ffurf fforwm a chymedroli fforwm grŵp tiwtor ar-lein
  - o cyflwyno tiwtorialau ar-lein a thiwtorialau wyneb yn wyneb ac ysgolion dydd
- yn barod i gymryd rhan weithredol mewn cymuned ar-lein o athrawon a dysgwyr
- yn barod i ddefnyddio a datblygu sgiliau fel athro, gan ddefnyddio technolegau newydd a thechnolegau sy'n datblygu er mwyn helpu myfyrwyr i ddysgu
- â diddordeb mewn defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau i fynd i'r afael ag agenda cadw a datblygu'r gyfadran

Gwybodaeth ychwanegol

Noder bod y modiwl yn dilyn patrwm cyflwyno 21 wythnos.

## Manylion y modiwl

| | |
|---|---|
| Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: | 30 |
| Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr: | 3 |
| Dull cyflwyno aseiniadau: | 2 |
| Lefel y gofynion TGCh: | 2 |
| Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol: | 20 |
| Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu: | 6 |

**Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei gymeradwyo eto ac felly mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.**